Gwyddoniaeth
2 i 5

# Syllu ar y Cymylau

- Y Byd O'n Cwmpas

## Trosolwg

Bydd y gweithgaredd syml yma'n annog arsylwi ac yn creu cysylltiad â'r byd o'n cwmpas. Mae'n helpu i ddatblygu dychymyg a chreadigrwydd, a hefyd yn caniatáu amser ar gyfer rhywfaint o ymlacio ystyriol.

## Adnoddau

- Awyr las gyda chymylau.
- Gofod agored, cyfforddus i orwedd.
- Ryg neu darpolin i orwedd arno os yw'r ddaear yn llaith.

## Gweithgaredd

1. Dewiswch ddiwrnod pan fyddwch chi'n ymlacio'n gorwedd ar y ddaear yn edrych i fyny ar yr awyr.
2. Chwiliwch am lecyn awyr agored cyfforddus i orwedd ynddo.
3. Edrychwch ar y cymylau yn yr awyr.
4. Trafodwch beth allwch chi ei weld a beth mae'r cymylau'n gwneud i chi feddwl amdano e.e. Allwch chi weld wyneb? Castell tylwyth teg? Anifail?
5. Trafodwch sut mae gan bawb ddehongliadau gwahanol o'r hyn y gallant ei weld.

## Canlyniadau a Awgrymir ar gyfer Dysgu a Chwarae

Rydyn ni'n deall y byddwch chi'n teilwra'r weithgaredd yma i anghenion dysgu eich disgyblion. Dyma rai o'r canlyniadau dysgu a'r syniadau estyniad mae ymarferyddion eraill wedi defnyddio'r wers yma ar gyfer eu cyrraedd.

- Treulio amser ym myd natur
- Dechrau archwilio patrymau tywydd a'r byd naturiol
- Defnyddio iaith ddychmygus a disgrifiadol

| Maes pwnc | Testun | Syniadau ar gyfer Archwilio Pellach |
|---|---|---|
| Gwyddoniaeth | Y tywydd | Dechrau ymchwilio i wahanol fathau o gymylau a beth allai eu siâp a'u lliw olygu |
| Celf | Gludo a thorri | Creu rhywfaint o waith celf cwmwl gan ddefnyddio gwlân cotwm neu ddeunyddiau naturiol |
| Llythrennedd ac Iaith | Iaith ddisgrifiadol | Defnyddio geirfa i ddisgrifio'r hyn rydych chi'n gallu ei weld |
| | Adrodd straeon | Llunio straeon i gysylltu'r gwahanol bethau y gallwch chi eu gweld yn y cymylau |
| Mathemateg | Rhif | Cyfrif faint o gymylau allwch chi eu gweld a thrafod meintiau (mwy / llai ac ati) |
| | Siâp | Chwilio am wahanol siapiau yn y cymylau a thrafod nodweddion siapiau |

Learning through Landscapes

Os hoffech chi ddatblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau dysgu awyr agored, edrychwch ar ein hamrywiaeth ni o gyrsiau hyfforddi: ltl.org.uk/outdoor-learning-training

© Mae'r daflen weithgarwch yma wedi cael ei chreu gan Ymddiriedolaeth Learning through Landscapes. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr rhif 803270 ac yn yr Alban SCO38890